# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Mai 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Manon George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

---

**Rhag-gyfarfod (09:00-09:15)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papurau i'w nodi

(Tudalen 1)

2.1 Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin - Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

(Tudalennau 2 - 6)

2.2 Diogelwch adeiladau - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

(Tudalennau 7 - 9)

2.3 Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr - Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

(Tudalennau 10 - 11)

2.4 Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Ardrethu Annomestig - Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(Tudalennau 12 - 13)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 6, a 7

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**4 Gwasanaethau Llyfrgell a Hamdden Awdurdodau Lleol - trafod y materion allweddol**

(09:20-10:00)

**5 Gwasanaethau Llyfrgell a Hamdden Awdurdodau Lleol - Tystiolaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**

(10:00-11:15) (Tudalennau 14 - 50)

Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth

Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru

Neil Welch, Pennaeth Chwaraeon, Llywodraeth Cymru

Mary Ellis, Pennaeth Llyfrgelloedd, Archifau a Gwydnwch, Llywodraeth Cymru

**6 Gwasanaethau Llyfrgell a Hamdden Awdurdodau Lleol - trafod y materion allweddol**

(11:15-11:45)

**7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig**

(11:45-12:00) (Tudalennau 51 - 59)

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

24 Mai 2023 – clawr y papurau i'w nodi

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Papur 1 | Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin | Llywodraeth Cymru | I'w nodi |
| Papur 2 | Diogelwch adeiladau | Y Gweinidog Newid Hinsawdd | I'w nodi |
| Papur 3 | Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr | Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | I'w nodi |
| Papur 4 | Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ardrethu Annomestig | Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | I'w nodi |

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, sy’n dwyn y teitl Darparu Cartrefi i Ffoaduriaid o Wcráin**

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am eu hadroddiad ynghylch Darparu Cartrefi i Ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru. Rydym ni, yn Llywodraeth Cymru, wedi ymrwymo i ddarparu cymorth parhaus i Wcreiniaid wrth iddynt ffoi o'u mamwlad a cheisio lloches yng Nghymru.

Roedd ein cyllideb, a basiwyd yn y Senedd yn ystod yr wythnos a ddechreuodd 6 Mawrth, yn nodi £40m o fuddsoddiad i gefnogi pobl o Wcráin sy’n ymgartrefu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ers i Lywodraeth y DU gyflwyno ei chyhoeddiad ym mis Rhagfyr i dorri'r cyllid y mae’n ei ddarparu i awdurdodau lleol, i lefelau sy'n llawer is na'r hyn sydd ei angen neu y gellid ei liniaru, rydym wedi gweithio'n agos ag awdurdodau lleol i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Cyhoeddais ein cynlluniau ar gyfer taliadau atodol i letywyr, cymorth ar gyfer llety symud ymlaen a chronfa cymorth dewisol ym mis Mawrth, ac rwy'n falch iawn bod yr argymhellion yn eich adroddiad yn cyd-fynd yn agos iawn â'r trefniadau hyn. Mae dyrannu'r cyllid hwn yn pwysleisio ein hymrwymiad parhaus, fel Cenedl Noddfa, i integreiddio'r rhai yr ydym eisoes wedi'u croesawu ac adsefydlu'r rhai sy'n dal i gyrraedd.

**Nodir isod ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:**

**Argymhelliad 1**
Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru barhau â’i hymdrechion i ddarbwyllo Llywodraeth y DU i gynyddu’r taliad misol i letywyr i £500 neu, os nad yw hyn yn bosibl, ystyried ariannu taliadau pontio i letywyr yng Nghymru i sicrhau bod pawb yn cael taliad misol o £500.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth y DU wedi parhau i ddatgan y bydd y taliadau misol i letywyr am y flwyddyn gyntaf y mae unigolyn o Wcráin wedi bod yn y DU yn aros yn £350, gan gynyddu i £500 yn unig ar ddechrau'r ail flwyddyn. Er i Weinidogion Cymru a'r Alban bwyso dro ar ôl tro i’r taliad godi, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gadarn ynghylch eu hymateb.

Rydym ni, yn Llywodraeth Cymru, yn cydnabod y rôl bwysig iawn y mae ein lletywyr wedi ei chwarae ac y byddant yn ei chwarae wrth gefnogi'r rheini sy'n ffoi o Wcráin drwy eu croesawu i'w cartrefi. O ystyried hynny, a'r argyfwng costau byw presennol, teimlwn ei bod yn hanfodol sicrhau tegwch o ran y taliadau ar gyfer y rheini sy'n rhoi llety yng Nghymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo £2.5m o'n hamlen ariannol ar gyfer 2023-24 o dan gynllun Cartrefi i Wcráin i ariannu taliadau misol atodol o £150 i'r rhai a fyddai fel arall ond yn gymwys i gael £350 y mis. Bydd hyn yn sicrhau bod pob lletywr yn gymwys i gael £500 y mis, ni waeth pa mor hir y mae'r rhai sy'n aros yn eu llety wedi bod yn y DU. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu cynyddu’r taliadau diolch yn uwch na £500, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol hwnnw yw ariannu unrhyw swm atodol ychwanegol o'u cyllideb. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei hyrwyddo drwy ymgyrch gyfathrebu integredig i annog mwy o letywyr i gynnig llety.

Byddaf yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i roi gwybod am y trefniadau yn y tymor hwy ar gyfer taliadau i letywyr.

**Goblygiadau ariannol:** rydym wedi ymrwymo £2.5m o'n cyllideb £40m yn 2023-24 i dalu'r gost o godi taliadau diolch i letywyr i £500.

**Argymhelliad 2**
Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd fel mater o frys i egluro ei safbwynt o ran canolfannau croeso.

**Ymateb: Derbyn**

Bwriedir i’r llety cychwynnol sy’n cael ei ddarparu drwy ein cynllun uwch-noddwr fod yn llety dros dro yn unig i’r rhai sy’n ffoi o Wcráin, ac i’r llety hwnnw beidio â bod yn un am gyfnod amhenodol. Mae'n flaenoriaeth i gefnogi pobl sy'n cyrraedd o Wcráin i gael llety mwy hirdymor, fel eu bod yn gallu ymgartrefu ac integreiddio eu hunain yn llawn yn ein cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos ag awdurdodau lleol i gytuno ar strategaeth a chynllun i symud pobl allan o’r llety cychwynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, sy'n darparu ar gyfer anghenion dyfodiaid o Wcráin a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae'r rhaglen i gau lletyau yn rhan o gynllun cydgysylltiedig penodol sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid allweddol eraill i symud pobl ymlaen i lety mwy hirdymor. Mae'r cynllun hwnnw eisoes ar waith – mae 16 lleoliad wedi cau erbyn hyn, a'r mwyafrif o westeion o Wcráin yn y lleoliadau hynny'n symud i lety mwy hirdymor, gan gynnwys lleoliadau lletya, y sector rhentu preifat neu lety trosiannol. Yn y nifer fechan o achosion lle na ddigwyddodd hynny, cafodd y gwesteion Wcreinaidd hynny eu symud i lety cychwynnol amgen lle mae ymdrechion yn parhau i gefnogi pobl i symud i lety mwy hirdymor.

Ni fydd unrhyw westeion yn cael eu gadael heb lety yn sgil cau lleoliad llety cychwynnol ac ni fydd unrhyw un yn mynd yn ddigartref ac ar y stryd o ganlyniad i’n cynlluniau i leihau capasiti yn ein lleoliadau llety cychwynnol dan gynllun uwch-noddwr. Wrth inni gau lleoliadau, rydyn ni'n gweithio'n ddiwyd ag awdurdodau lleol a'u gwesteion i sicrhau bod cynigion amgen addas yn cael eu gwneud. Yn ogystal â'n dyraniad disgwyliedig o grant Cymorth Tai Llywodraeth y DU gwerth £150m a gaiff ei ddefnyddio i gefnogi pobl sy’n cyrraedd o Wcráin, mae £2m o'n hamlen ariannol ar gyfer 2023-24 wedi ei glustnodi'n benodol i gefnogi awdurdodau lleol wrth symud Wcreiniaid ymlaen i lety mwy hirdymor.

**Goblygiadau ariannol:** nid oes goblygiadau ariannol ynghlwm wrth roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd.

**Argymhelliad 3**
Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd am ei bwriad o ran defnyddio llety modiwlaidd i ddarparu cartrefi i bobl o Wcráin. Dylai hyn gynnwys manylion am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol o ran datblygu llety o’r fath, ac am y cyllid sydd ar gael iddynt, a’i bwriad yn y tymor hwy o ran ei ddefnyddio.

**Ymateb: Derbyn**

Sefydlwyd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol ym mis Gorffennaf mewn ymateb i bwysau tai ehangach i helpu i gyflwyno rhagor o lety mwy hirdymor o ansawdd da yn ddi-oed. Ym mlwyddyn ariannol 2022-23 mae hyd at £76.5m wedi ei roi i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i helpu pawb sydd mewn angen o ran tai, gan gynnwys Wcreiniaid. Mae’r mathau o brosiectau sy'n cael eu cefnogi gan y cyllid hwn yn cynnwys gwneud eiddo gwag yn addas i’w ddefnyddio, ailfodelu ac addasiadau, caffaeliadau, a defnyddio llety modiwlaidd ar sail defnydd yn y cyfamser. Yr awdurdodau lleol a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy’n penderfynu pa brosiectau y maent yn eu cyflwyno ar gyfer y cyllid, a sut mae'r llety trosiannol hwnnw wedyn yn cael ei ddefnyddio ar sail eu hanghenion a'u hamgylchiadau lleol. Rhaid i brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy’r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol fodloni'r safonau gofynnol a nodir yn fframwaith safonau’r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol – a bwriedir i’r rheini sicrhau dull hyblyg ac ymatebol o gyflwyno llety o ansawdd da yn gyflym.

O ran llety modiwlaidd, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio rhwydweithiau sydd wedi hen ennill eu plwyf i hwyluso rhannu arferion gorau ynghylch adeiladau modiwlaidd ar gyfer llety trosiannol, megis y Tai Arloesol – Cymuned Ymarfer sy'n cyfarfod bob deufis i rannu'r hyn a ddysgir ac arferion gorau o gynlluniau a ariennir o dan y Rhaglen Tai Arloesol. Yn ogystal, byddwn yn parhau i annog cydweithio a dysgu drwy ein cyfarfodydd rheolaidd ar arweinyddiaeth tai Cymru a chyfarfodydd ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol:** nid oes goblygiadau ariannol ynghlwm wrth roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd.

**Argymhelliad 4**
Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor i sicrhau bod digon o lety symud ymlaen addas ar gael i bobl o Wcráin.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i gefnogi pobl sy'n cyrraedd o Wcráin i symud ymlaen o lety cychwynnol i lety mwy hirdymor.

Ym mis Mai 2022 cytunodd pob awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru ar Cartrefi i Wcráin: Fframwaith ar gyfer Llety. Roedd hwn yn nodi sut y byddai Wcreiniaid sy'n cyrraedd trwy lwybr uwch-noddwr Llywodraeth Cymru ac sy'n cael eu lletya mewn llety cychwynnol yn cael eu gwasgaru ledled Cymru. Yn unol â’r fframwaith cytunodd pob awdurdod lleol ar gyfran o’r boblogaeth o Wcreiniaid sy’n cyrraedd o dan y llwybr uwch-noddwr y byddent yn ei chefnogi i gael llety mwy hirdymor fel rhan o'n dull ‘Tîm Cymru’. Roedd y trefniant yn cydnabod dosbarthiad anghyson y llety cychwynnol ledled Cymru ac yn rhoi sicrwydd i'r awdurdodau lleol sy'n cefnogi lleoliadau llety cychwynnol yn eu hardal leol na fyddent yn gyfrifol am lety mwy hirdymor pob Wcreiniad sy’n cyrraedd drwy'r llwybr uwch-noddwr ac mewn llety cychwynnol. Mae ein cynllun symud ymlaen o lety cychwynnol wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn blaenoriaethu symud ymlaen ond yn sensitif i'r pwysau tai ehangach ar draws awdurdodau lleol, ac yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu dosbarthu'n deg ar draws pob awdurdod lleol wrth gau lleoliadau llety cychwynnol. Mae'r gyfran o'r boblogaeth sy’n cael ei rhannu rhwng yr awdurdodau lleol newydd gael ei diweddaru i adlewyrchu pwysau tai ehangach – ac mae'n cael ei chadarnhau ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol unigol.

Fel rhan o'r ymdrech hon, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo £2m o amlen ariannol Cartrefi i Wcráin 2023-24 i dargedu cymorth penodol ar gyfer llety symud ymlaen yng Nghymru. Bydd £1.5m o'r gronfa honno’n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol yn seiliedig ar fodel rhannu’r boblogaeth y cytunwyd arno, a bydd gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i benderfynu ar y ffordd orau i’w ddefnyddio i gefnogi symud ymlaen, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Er enghraifft, gallai awdurdod lleol benderfynu defnyddio'r cyllid i helpu Wcreiniaid sy’n cyrraedd i gael llety yn y sector rhentu preifat drwy dalu'r bond cychwynnol a'r rhent ar gyfer y mis(oedd) cyntaf. Bydd y £500k sy'n weddill o'r gyllideb hon yn cael ei gadw yn ganolog i ddarparu cymorth symud ymlaen ar lefel genedlaethol i aelwydydd mwy cymhleth, er enghraifft i deuluoedd mwy lle gall yr opsiynau ar gyfer llety mwy hirdymor fod yn fwy cyfyngedig.

Gan gydnabod y pwysau tai ehangach a'r angen i gefnogi pobl i symud ymlaen o lety dros dro i lety mwy sefydlog, sefydlodd y Gweinidog Newid Hinsawdd y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol ym mis Gorffennaf. Nod y Rhaglen honno yw cefnogi awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu llety mwy hirdymor o ansawdd da yn ddi-oed i gefnogi pawb sydd mewn angen o ran tai – gan gynnwys Wcreiniaid. Ym mlwyddyn ariannol 2022-23 mae hyd at £76.5 miliwn o gyllid wedi ei glustnodi, a fydd yn sicrhau bod mwy na 1300 o gartrefi ychwanegol yn cael eu darparu o fewn y 18 mis nesaf.

Yn ychwanegol at hynny, ymhlith y ffyrdd y bydd y £40m yn cael ei wario mae £2.5m wedi'i neilltuo i ganiatáu i awdurdodau lleol gynyddu'r taliadau 'diolch' i bobl yng Nghymru sy'n lletya gwesteion o Wcráin – sef i fyny o'r £350 presennol i £500 y mis. Yn ddiweddar, rydym wedi lansio ymgyrch gyfathrebu genedlaethol newydd i annog lletywyr newydd i gynnig llety i westeion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r materion integreiddio sy'n cyd-fynd ag ymgartrefu mewn llety hirdymor.

**Goblygiadau ariannol:** mae ein cynllun hirdymor wedi ei ddatblygu ac mae modd talu'r costau sy'n gysylltiedig â hyn o fewn y gyllideb o £40m a ddyrannwyd ar gyfer 2023-24 fel y nodir uchod.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid defnyddio rhywfaint o'r £40 miliwn y mae wedi'i dyrannu yn ei chyllideb ar gyfer 2023-24 i helpu awdurdodau lleol i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin i dalu'r gwahaniaeth yn y tariff integreiddio.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r gostyngiad yn y tariff integreiddio o £10,500 i £5,900 yn sylweddol, ac yn absenoldeb tariffau integreiddio ac addysg ar gyfer blwyddyn 2 ni allwn roi'r un lefel o gyllid i awdurdodau lleol o'n hadnoddau ein hunain, am na fydd ein hadnoddau, gwaetha'r modd, yn ymestyn mor bell â hynny. Yn lle tariff blwyddyn 2, rydym yn disgwyl cael cyfran o grant Cymorth Tai Llywodraeth y DU sydd gwerth £150 miliwn. Er y bydd y gyfran honno'n darparu ychydig o gymorth i bontio'r bwlch hwn, bydd yn dal i fod yn llawer llai na'r hyn y byddai awdurdodau lleol wedi'i gael fel arall petai Llywodraeth y DU wedi parhau i ddarparu tariffau ar gyfer blwyddyn 2, yn unol â chynlluniau eraill i ffoaduriaid ac ar gyfer adsefydlu.

Serch hynny, er bod Llywodraeth y DU wedi torri'r cyllid hanfodol sydd ei angen ar awdurdodau lleol i lefelau llawer is na'r hyn y gellir ei liniaru, rydym yn parhau'n benderfynol o gefnogi cynghorau i helpu pawb sydd angen cartref yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i'r rheini sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin, ac er y bydd y rhan fwyaf o gyllideb £40m dan gynllun Cartrefi Wcráin yn cael ei dyrannu i ddarparu llety cychwynnol, bydd y rhan fwyaf o'r gweddill yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i roi cymorth lle mae ei angen fwyaf yn eu hardal.

Felly, rydym wedi gwneud y penderfyniad i ddefnyddio elfennau o gyllideb ein cynllun Cartrefi i Wcráin i ddarparu cymorth wedi'i dargedu, sef lle mae awdurdodau lleol wedi nodi y byddai colli cyllid y tariff yn eu taro'n fwyaf sylweddol a bod angen cymorth pellach. Yn ogystal â darparu cyllid atodol i letywyr a chymorth i symud ymlaen, mae cronfa ddewisol o £1.95m wedi'i chlustnodi i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i awdurdodau lleol, i'w helpu i fynd i'r afael â materion integreiddio ac i bontio rhywfaint o'r bwlch y mae'r gostyngiad yn y tariff integreiddio wedi'i adael. Fe fydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cyllid yn uniongyrchol i gynghorau trwy ddau randaliad o £800k yr un, a fydd yn cael ei ddosbarthu ar draws y 22 awdurdod lleol yn seiliedig ar nifer yr Wcreiniaid ym mhob un awdurdod lleol. Bydd £100k arall o'r gyllideb yn cael ei ddefnyddio i ymestyn y cynllun trafnidiaeth, sef Tocyn Croeso. Bydd y £250k arall yn cael ei ddal yn ôl, gan roi cyfle i awdurdodau lleol gyflwyno pwysau penodol sydd angen cyllid, er mwyn ateb galw lleol.

**Goblygiadau ariannol:** rydym eisoes wedi bwriadu darparu cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol a gellir talu am y cymorth hwnnw drwy ein cyllideb o £40m yn 2023-24 fel y nodir uchod.

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar gael eglurder ynghylch faint o’r £150 miliwn o gyllid newydd ar gyfer 2023-24 a fydd ar gael i Gymru. Dylai’r diweddariad gynnwys gwybodaeth am sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r pot newydd o gyllid £150m, neu'r Gronfa Atal Digartrefedd, yn cael ei darparu fel dewis arall yn lle tariff blwyddyn 2 Cartrefi i Wcráin, er nad yw'n agos at ddisodli'r refeniw a gollwyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae'r ffordd y bydd y gronfa hon yn cael ei dosbarthu, ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth yr arian hwn, wedi eu trafod yn gyson gan uwch swyddogion ac mewn Cyfarfodydd Gweinidogol Tairochrog rheolaidd â Llywodraeth y DU a Gweinidogion arweiniol Llywodraeth yr Alban. Rwyf wedi ysgrifennu at Weinidog Llywodraeth yr Alban ac ar wahân at Arweinydd Adran Tai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac at Ysgrifennydd Gwladol Adran Ffyniant Bro a Chymunedau i geisio cael eglurder ar y disgownt cwantwm ac unrhyw amodau sy’n gysylltiedig â'r cyllid. Rwyf bellach wedi cwrdd â Gweinidog Llywodraeth y DU ac mae dyraniad dangosol wedi'i nodi sy'n cyd-fynd â disgwyliadau mewnol a oedd wedi'u seilio ar ddata a gyhoeddwyd am ddyfodiaid o Wcráin dan gynllun Cartrefi i Wcráin, a rhaniad cenedlaethol o'r gronfa. Unwaith y bydd dyraniad Cymru o'r gronfa hon wedi'i chytuno'n ffurfiol, byddwn yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol i sicrhau bod y cyllid hwn yn helpu awdurdodau lleol i ddiwallu eu cyfran o'r boblogaeth. Wrth i wybodaeth newydd ddod i law am y dyraniad hwn, bydd y Senedd yn cael ei diweddaru.

**Goblygiadau ariannol:** nid oes goblygiadau ariannol ynghlwm wrth roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/PO/129/2023

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddTai@senedd.cymru

5 Mai 2023

Annwyl John

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch diogelwch adeiladau.

Mae diogelwch adeiladau yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae'n hanfodol bwysig bod preswylwyr yn teimlo'n saff ac yn ddiogel yn eu cartrefi.

Fel y gwyddoch, mae'r Llywodraeth hon, yn wahanol i Loegr, wedi gweithredu dull gwahanol ac un sy'n fwy holistaidd o ran diogelwch adeiladau a hynny drwy beidio â chyfyngu ar y modd y gellir cael gafael ar gyllid ar gyfer adeiladau sydd â chladin. Yn hytrach, ystyrir y risgiau tân sy'n deillio o du allan adeiladau sy'n 11 o fetrau neu'n uwch, a'r risgiau oddi mewn i'r adeiladau hynny. Caiff arolygon ymwthiol eu comisiynu a'u cyllido gan Lywodraeth Cymru ar ran lesddeiliaid, a hynny er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir, gyson a chynhwysfawr ynghylch materion sy'n ymwneud â diogelwch adeiladau ledled Cymru.

Yn dilyn cwblhau'r arolwg ymwthiol, caiff adroddiad ei rannu â'r Person Cyfrifol sy'n nodi, ym marn yr ymgynghorydd, a yw'r materion a nodwyd yn ymwneud â namau adeiladu, gwaith cynnal a chadw neu gamau gweithredu gan lesddeiliaid. Mae'r wybodaeth sy'n nodi bod angen cwblhau pob arolwg cyn yr anfonir yr adroddiadau yn anghywir. Caiff adroddiadau eu rhannu â'r Person Cyfrifol pan fyddant yn cael eu cwblhau.

Deallaf fod y cais Rhyddid Gwybodaeth y cyfeirir ato yn eich llythyr wedi gofyn a wnaed unrhyw daliadau er mwyn ad-dalu yn ôl-weithredol gostau arolygon lesddeiliaid a ysgwyddwyd cyn rhoi Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru ar waith ym mis Medi 2021. Yr ymateb oedd bod cais am £75,590.40 wedi'i wneud gan bum ymgeisydd i dalu am gostau'r arolygon. Mae tri o'r hawliadau hyn wedi'u talu hyd yma a bydd y dau sy'n weddill yn cael eu talu ar ôl i'r gwaith papur cymwys ddod i law. Dyma ond un enghraifft o'r modd rydym yn ariannu costau arolygon. Fel y nodwyd uchod, rydym wedi comisiynu ein harbenigwr ein hunain, a hyd yma, rydym wedi darparu gwerth £1,400,000 o gyllid ar gyfer cynnal arolygon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal ag ariannu'r gwaith o gynnal arolygon, bydd Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru yn cael ei defnyddio hefyd ar gyfer:

- Cyweirio tai yn y sector cymdeithasol – mae £78.5 miliwn wedi'i ddyrannu hyd yma gyda gwaith wedi'i gwblhau ar 26 o adeiladau a gwaith yn cael ei gynnal ar 79 o adeiladau eraill.

- Cyweirio carfan gychwynnol o 28 o adeiladau'r sector preifat pan nad yw'r datblygwr yn hysbys, pan fydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu neu pan fo'r adeilad wedi'i adeiladu 30 neu ragor o flynyddoedd yn ôl. Mae hyd at £100 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y diben hwn.

- Ariannu'r Cynllun Cymorth i Lesddeiliaid sef gwasanaeth sy'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ac sydd wedi'i ddatblygu er mwyn helpu pobl sydd yn wynebu, neu mewn sefyllfa o galedi ariannol sylweddol oherwydd y ffaith bod materion sy'n ymwneud â diogelwch tân yn effeithio ar eu heiddo. Mae'r cynllun hwn yn darparu cyngor ariannol annibynnol am ddim, ac os yn briodol, yr opsiwn i lesddeiliaid i werthu eu heiddo a naill ai symud ymlaen neu ei rentu yn ôl.

- Sefydlu cynllun benthyciad i ddatblygwyr gyda swm cychwynnol gwerth £20 miliwn ar gael i bob datblygwr sydd wedi llofnodi dogfen Llywodraeth Cymru sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol. Diben y benthyciad yw leihau unrhyw oedi i waith a fyddai'n estyn dioddefaint lesddeiliaid sy'n byw mewn adeiladau sydd â phroblemau diogelwch tân.

Am y rhesymau a nodir gennych, mae gwella'r system diogelwch adeiladau bresennol er mwyn sefydlu trefn diogelwch adeiladau sy'n addas i'w diben yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon. Rhaid i'r gwaith Diogelwch Adeiladau yng Nghymru fynd i'r afael â'n sefyllfa bresennol yn ogystal â chynnal gwaith sylfaenol o ran gwella'r drefn diogelwch adeiladau er mwyn sicrhau nad yw'r problemau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn digwydd eto yn y dyfodol.

Mae hwn yn faes gwaith hynod o gymhleth ac er ei bod yn bwysig ein bod yn gweithio yn ddi-oed i ganfod y datrysiadau a fydd yn datrys yr argyfwng hwn, mae hefyd yr un mor bwysig mai'r datrysiadau hynny yw'r rhai cywir.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n agos â rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat yn ogystal ag asiantiaid rheoli er mwyn rhoi ein gwaith datblygu polisi ar brawf, ei lywio a'i wella. Ymgynghorwyd ar ein cynigion i wella diogelwch adeiladau yn uniongyrchol â CladDag. Roeddent yn falch o'n bwriad i sicrhau bod gwaith ymgynghori yn cael ei gynnal â phreswylwyr anabl ac maen nhw wedi cynnig ein helpu i ganfod unigolion anabl a fyddai'n fodlon cymryd rhan yn ein grwpiau ffocws.

Bydd ein cynllun peilot sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru o ran cyweirio 'adeiladau di-riant', byddaf yn sicrhau bod yr effeithiau ar holl lesddeiliaid a phreswylwyr yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys y rhai hynny sydd â gofynion ychwanegol. Bydd y rhaglen yn nodi'r materion diogelwch tân sy'n berthnasol i du allan adeiladau ac oddi mewn iddynt gyda'r amcan o sicrhau bod adeiladau ar gyfer pob preswylydd mor ddiogel rhag tân â phosibl. Fodd bynnag, yn yr un modd ag y mae pob adeilad yn unigryw, gall anghenion lesddeiliaid unigol fod hefyd. Dylid sicrhau bod cymorth yn ei le ar gyfer y rheini sydd ag anghenion ychwanegol a hynny drwy Gynllun Personol Gadael mewn Argyfwng. Dylid trafod y cynllun hwn gyda gweithwyr cymorth yr unigolion neu gyda gwasanaethau cymdeithasol.

Byddaf hefyd yn tynnu sylw at brofiadau a'r enghreifftiau a roddwyd gan CladDag pan fyddaf yn cyfarfod nesaf â'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol. Byddaf yn gwneud hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg aelodau perthnasol, yn benodol y rhai hynny megis y gwasanaethau Tân ac Achub.

Mae'r dull o gydweithio a fabwysiadwyd yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus o ran ymwneud â datblygwyr, a'u dwyn i gyfrif. Gwelir bod sawl datblygwr eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gyweirio adeiladau y maent yn gyfrifol amdanynt. Ym mis Mawrth, cyhoeddais fod pob datblygwr ond dau a oedd wedi ymrwymo i ymrwymiad Llywodraeth Cymru bellach wedi llofnodi'r dogfennau cyfreithiol swyddogol. O blith y ddau ddatblygwr sy'n weddill, mae Bellway wedi cadarnhau eu bwriad i lofnodi'n ysgrifenedig ac maent wedi nodi y byddant yn gwneud hynny erbyn diwedd mis Ebrill. Mae St Modwen wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw adeiladau sydd o fewn cwmpas y gwaith yng Nghymru.

Bydd gan bob datblygwr 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad llofnodi i rannu eu cynlluniau cyweirio manwl. Mae'r ddogfen gyfreithiol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymwneud yn effeithiol â lesddeiliaid, preswylwyr ac asiantiaid rheoli yn ogystal â monitro trefniadau sydd i'w rhoi ar waith er mwyn gallu mesur hynt y gwaith. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda datblygwyr i sicrhau eu bod wedi ystyried anghenion lesddeiliaid anabl yn llawn yn ystod y broses gyweirio.

Hoffwn eich sicrhau fy mod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â diogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn parhau i ddatblygu ein cynllun cyweirio adeiladau, ochr yn ochr â rhaglen wella sylweddol er mwyn sefydlu trefn diogelwch adeiladau sy'n addas i'w diben yng Nghymru.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Papur 3

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

17 Mai 2023

Annwyl Jane,

Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae sicrhau bod safleoedd yn diwallu anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr o ddiddordeb mawr i'n pwyllgor. Rydym yn pryderu am y ffaith na wnaed fawr o gynnydd o ran darparu digon o safleoedd sy'n ddiwylliannol briodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac nad oes unrhyw ddyraniad wedi'i wario (neu y rhagwelir y caiff ei wario) yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 o Grant Cyfalaf Safle Sipsiwn a Theithwyr, er bod £3.690m wedi'i ddyrannu.

Drwy ein gwaith yn ymwneud â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, rydym wedi dysgu mai ychydig o gynnydd a wnaed mewn perthynas ag adolygu asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol (yr Asesiadau). O gofio y bydd angen cwblhau'r cylch nesaf o asesiadau yn 2024 mae angen bwrw ymlaen â'r gwaith dadansoddiad fel mater o frys.

Roeddem yn pryderu'n arw o glywed y gallai prinder adnoddau yn yr Adran Cydraddoldeb a throsiant staff uchel fod wedi cyfrannu at yr oedi hwn ac y gallai hyn fod yn rhan o'r rheswm pam nad oes cyllid grant ar gael.

Byddem, felly, yn falch o gael ymateb i'r canlynol:

1. Pa fframwaith sydd ar waith ar gyfer adolygu'r Asesiadau a phryd y cânt eu cwblhau? Sut fydd cyrff yn y trydydd sector yn cael gwybod beth yw'r casgliadau?
2. Pa adnoddau sydd ar gael i gynnal yr adolygiadau hyn?
3. Os nad yw Asesiadau awdurdod lleol wedi'u cymeradwyo, a yw hynny'n effeithio ar ei allu i wneud cais am arian grant i ddatblygu safleoedd newydd neu i wella safleoedd presennol?
4. Pa gynnydd a wnaed i adolygu effeithiolrwydd y broses asesu a sut y gellid ei chryfhau?
5. Pa gynnydd a wnaed o ran cymryd y camau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru i ddarparu safleoedd, yn enwedig o ran sicrhau bod y mecanweithiau cyfreithiol presennol yn cael eu defnyddio'n llawn i sicrhau bod cynlluniau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol a hefyd o ran y cynllun peilot tair blynedd i roi cyngor i'r rhai sy'n ceisio datblygu safleoedd preifat.

Rydym wedi clywed bod y sefyllfa'n awr yn fwy difrifol na phan gynhaliodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei ymchwiliad i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a hynny yn ystod haf 2022. Mae'n hollbwysig ein bod mewn sefyllfa i ddeall a diwallu anghenion y gymuned.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 31 Mai 2023.  Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

18 Mai 2023

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon buom yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (y Memorandwm).

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Memorandwm yn llawn cyn inni adrodd i'r Senedd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn erbyn 1 Mehefin 2023.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

**Cwestiwn 1:** Mewn mannau amrywiol yn y Memorandwm (gan gynnwys paragraffau 4, 6, 7 a 63) rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio a gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. A allwch gadarnhau pryd y dechreuodd trafodaethau cydweithredol gyda Llywodraeth y DU a phryd y ceisiwyd yn ffurfiol am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

**Cwestiwn 2:** Ym mharagraffau 45 i 47 o'r Memorandwm rydych yn nodi'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen. Rydych yn dweud "Nid oedd digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru". Rydych yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

a) O ystyried y sylwebaeth yr ydym wedi tynnu sylw ato yng nghwestiwn 1 - ei bod yn ymddangos y bu cydweithio ar y Bil – a fyddech cystal â rhoi eglurder pellach ynghylch sut a pham nad oedd "digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru".

b) Rydym yn nodi bod y Bil yn debygol o gwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin erbyn diwedd mis Mai, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Os bydd eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau yn cael eu gwneud i'r Bil yn ystod ystyriaeth yr Arglwyddi sy'n rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol (sy'n cynnwys manylion llawn yr holl newidiadau perthnasol a wneir i'r Bil) mewn modd amserol i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â'u gwaith craffu.

**Cwestiwn 3:** Ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod nifer o ddarpariaethau yng nghymal 15 o'r Bil yn berthnasol i Gymru. Yn benodol, rydych yn dweud bod is-adran 3(d) yn "newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Cafodd y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a'r weithdrefn graffu gadarnhaol 'gwnaed' sydd ynghlwm wrtho, ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru drwy *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*. Ni roddir esboniad manwl o ran pam yr ydych yn defnyddio Bil y DU i newid (drwy israddio) gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn ôl yn unig. A allech roi esboniad trylwyr ynghylch pam fod y newidiadau a gyflwynwyd gan gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Papur tystiolaeth – Gwasanaethau Llyfrgell a Hamdden

## Cyflwyniad

1. Croesewir yr ymchwiliad hwn gan y Pwyllgor i wasanaethau llyfrgell a hamdden gan eu bod ill dau, mewn ffyrdd gwahanol, yn allweddol i iechyd a lles ein cenedl. Fodd bynnag, daw mewn cyfnod o heriau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus sy'n tarddu o'r wasgfa gyffredinol ar wariant cyhoeddus yn dilyn mwy na degawd o fesurau cyni a chostau ynni uwch, ac yn gefndir i'r cyfan, yr adferiad araf o effaith pandemig Covid.

2. Rydym yn cydnabod rôl hanfodol llywodraeth leol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a'n huchelgais cytûn i rymuso llywodraeth leol fel ei bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar fywyd pobl.

3. I gydnabod hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig i Awdurdodau Lleol yn 2023-24 i £5.5bn o £5.1bn yn 2022-23 i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o 7.9% neu £403 miliwn ar sail tebyg i'w debyg o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Rydym yn cydnabod y bydd hyn, oherwydd lefelau chwyddiant, yn dal i olygu dewisiadau anodd i awdurdodau ond er hynny mae'n gynnydd sylweddol ar ben cynnydd sylweddol y flwyddyn cynt . Nid oes yr un Awdurdod wedi cael llai na chynnydd o 6.5%.

4. Gall y cyllid cyfalaf sydd heb ei glustnodi a ddarperir i Awdurdodau Lleol gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i gynnal cyfleusterau chwaraeon a chymdeithasol os yw Awdurdodau o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Darperir cyllid hefyd trwy grant cyfalaf adeiladau Awdurdodau Lleol a gyflwynir rhwng 2023-2024 a allai hefyd helpu adeiladau chwaraeon neu ddiwylliannol o fewn ystâd Awdurdod Lleol.

## Gwasanaethau llyfrgell

5. Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at nifer o flaenoriaethau'r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol gan gynnwys iechyd a lles, cynhwysiant digidol ac addysg a dysgu. Er enghraifft. mae'r fenter 'Byw'n Dda' yn nodi'r gefnogaeth y gall llyfrgelloedd ei darparu i hybu iechyd a lles. Mae ymgyrchoedd diweddar wedi canolbwyntio ar heneiddio'n dda, cefnogaeth i rieni, a hyrwyddo llyfrgelloedd fel lle 'i gysylltu â phobl eraill'. Mae'r cynllun Darllen yn Well yn cefnogi unigolion i ddeall a rheoli eu hiechyd a'u lles drwy ddarllen deunydd defnyddiol. Ar hyn o bryd mae pedwar cynllun darllen ar gyfer dementia, iechyd meddwl, plant a phobl ifanc. Mae'r llyfrau a argymhellir ar gael gan bob gwasanaeth llyfrgell.

6. Mae llyfrgelloedd yn lleoedd hefyd i ddefnyddio offer TG am ddim a chynigir help i'r rhai sydd angen cymorth i ddefnyddio technoleg. Mae rhai llyfrgelloedd yn cynnig benthyg iPads i ddefnyddwyr eu defnyddio gartref. Rydym hefyd yn gweld datblygiad Lleoedd i Wneuthurwyr mewn llyfrgelloedd lle gall pobl ddefnyddio, er enghraifft, offer recordio a golygu, argraffwyr 3-D, ac offer crefft. Eu bwriad yw helpu i ddatblygu sgiliau STEM a chreadigrwydd.

7. Mae llyfrgelloedd lleol hefyd yn cynnig gofodau cynnes a chroesawgar i gynnal pobl drwy'r argyfwng costau byw presennol. Rhoddir pwyslais ar sicrhau bod pawb yn teimlo bod croeso iddynt ymweld â'u llyfrgell leol. Mae llawer o lyfrgelloedd hefyd yn cynnig diodydd a byrbrydau twym, gweithgareddau a chyngor i unrhyw un anghenus.

8. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddarparu gwasanaeth llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon'. Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb i 'oruchwylio' y gwasanaethau llyfrgell a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys y pŵer statudol i ymyrryd a galw ymchwiliad lleol pan nad yw (neu pan fo amheuaeth nad yw) awdurdod llyfrgell yn darparu'r gwasanaeth gofynnol.

9. Mae'r gwasanaethau llyfrgell a ddarperir yn cael eu monitro drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLS). Daeth y chweched Fframwaith Safonau i ben yn 2020 a'r bwriad oedd estyn y Fframwaith am flwyddyn arall (2020/21) er mwyn gallu cynnal adolygiad ac yna datblygu fframwaith newydd. Fodd bynnag, amharwyd ar y gwaith hwn gan y pandemig.

10. Cynhaliwyd ymarferion casglu data â mwy o ffocws iddynt, yn seiliedig ar Fframwaith 6 llai yn 2020/21 a 2021/22, i gofnodi'r gwaith a wnaed gan lyfrgelloedd i gefnogi cymunedau yn ystod y pandemig. Yn 2022/23, bydd llyfrgelloedd yn adrodd yn unol â'r chweched fframwaith unwaith eto. Bydd Fframwaith diwygiedig yn seiliedig ar y 6ed Fframwaith yn ei le ar gyfer 2023/24 a chynhelir adolygiad trylwyr o'r WPLS i ddatblygu'r seithfed fframwaith sy'n debygol o roi mwy o bwyslais ar ddangos effaith llyfrgelloedd.

11. Ar hyn o bryd, mae deunaw awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus yn uniongyrchol tra bod pedwar awdurdod yn eu darparu drwy drefniant ymddiriedolaeth. Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin (Blaenau Gwent), Well-Being@Merthyr (Merthyr Tudful), a Llyfrgelloedd a Hamdden Aura (Sir y Fflint) yn darparu gwasanaethau hamdden a gwasanaethau llyfrgell, a cheir enghreifftiau o gydweithio ar draws y gwasanaethau. Er enghraifft, lleolir Llyfrgell Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint yn y ganolfan hamdden ac mae Aneurin Leisure yn darparu 'Llyfrgelloedd Chwaraeon' lle gellir cael benthyg amrywiaeth o offer chwaraeon trwy'r gwasanaeth llyfrgell. Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen (Pen-y-bont ar Ogwr) yn gyfrifol am wasanaethau diwylliannol gan gynnwys llyfrgelloedd, ond mae hefyd yn cefnogi dwy lyfrgell gymunedol wedi eu staffio a'u rheoli gan Halo Trust sy'n rheoli gwasanaethau hamdden.

12. Mae darparu gwasanaeth llyfrgell yn ofyn statudol. Pe na bai Ymddiriedolaeth yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth, byddai angen i'r awdurdod lleol roi trefniant arall ar waith. Byddai unrhyw drefniant newydd yn parhau i gael ei fesur yn ôl Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn diwallu anghenion y gymuned leol ac yn ateb gofynion statudol Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

13. Ceir tuedd i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau llyfrgell drwy hybiau cymunedol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o hybiau'r gymuned yng Nghaerdydd yn cynnwys llyfrgell ynghyd â chyngor ar dai a budd-daliadau, cyngor ariannol, cyngor ar chwilio am waith, cyfleoedd dysgu a gofod cymunedol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn wedi cynyddu'r defnydd o wasanaethau, wedi lleihau costau ac yn cyfrannu at wytnwch gwasanaethau.

14. Mae datblygiadau eraill wedi gweld bod cydleoli gwasanaethau llyfrgelloedd a gwasanaethau diwylliannol eraill yn annog defnydd a chynaliadwyedd. Er enghraifft, mae llyfrgell, gwasanaeth archif ac amgueddfa i gyd wedi’u cyd-leoli yn Hyb Diwylliannol Conwy. Mae Y Gaer yn Aberhonddu yn llyfrgell, amgueddfa ac oriel, ac mae Glan yr Afon yn Hwlffordd yn gartref i lyfrgell, oriel gelf a chanolfan wybodaeth. Mae pob un o'r prosiectau hyn wedi elwa ar gyllid Cronfa Cyfalaf Trawsnewid Llywodraeth Cymru.

15. Mae'r symudiad tuag at hybiau a chyd-leoli gwasanaethau diwylliannol yn yr enghreifftiau uchod wedi gwneud llyfrgelloedd unigol yn fwy cynaliadwy ac efallai ambell waith wedi bod yn ffordd i osgoi eu cau. Gall awdurdodau lleol wneud cais i Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru ar gyfer amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd am help i adnewyddu llyfrgelloedd lleol, neu hwyluso’r symudiad at fodel hyb.

16. Mae nifer y llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru hefyd yn tyfu, lle mae'r gymuned yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb am lyfrgell leol. Cynhelir rhai mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, tra bo eraill yn gwbl annibynnol. Maen nhw'n dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr ac yn darparu mannau cymunedol gwerthfawr yn ogystal â gwasanaeth llyfrgell. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi llyfrgelloedd cymunedol drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, ac yn fwy diweddar i gwrdd â chostau rhedeg a chyfleustodau uwch.

17. Nid yw'r defnydd o wasanaethau llyfrgell wedi ymadfer yn llwyr eto ers y pandemig. Nid yw nifer yr ymweliadau corfforol a'r benthyciadau o lyfrau ac adnoddau eraill wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig eto. Mae cyflymder yr adferiad yn anwastad ac mae'n anodd esbonio’r rhesymau dros batrwm y defnydd ledled Cymru.

18. Fodd bynnag, gwelodd y pandemig gynnydd enfawr yn nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio e-adnoddau a rhagwelir y bydd y galw am gynnwys digidol (e-lyfrau, e-gylchgronau, e-bapurau newydd, a ffynonellau cyfeirio ar-lein eraill) yn parhau i gynyddu. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gwasanaeth Cenedlaethol y Llyfrgell Ddigidol (NDLS) i gaffael deunydd ond mae angen i awdurdodau lleol hefyd ddarparu cyllid ar gyfer adnoddau, ac i ddatblygu a chynnal yr isadeiledd sy’n gefn i'r gwasanaeth digidol yn ogystal â'r safleoedd ac adnoddau ffisegol traddodiadol. Mewn hinsawdd ariannol heriol mae hyn yn anodd.

19. Mae ymrwymiad cryf i gydweithio ar draws llyfrgelloedd Cymru. Ar hyn o bryd mae 20 o wasanaethau'n rhannu systemau rheoli llyfrgelloedd gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chan hyrwyddo cydweithio. Mae cynlluniau ar waith i ail-gaffael system rheoli llyfrgelloedd newydd (a all gynnwys pob un o'r 22

awdurdod) yn y flwyddyn i ddod. Dyma enghraifft wych o gydweithio i sicrhau arbedion ac i rannu gwybodaeth a phrofiad.

**Gwasanaethau hamdden**

20. Mae ein gwasanaethau hamdden – canolfannau hamdden, pyllau nofio a mannau hamdden awyr agored - yn hanfodol i iechyd a lles ein cenedl ac yn aml, nhw yw curiad calon ein cymunedau.

21. Ond mae arolygon diweddar yn dweud bod y diwydiant hamdden yn wynebu heriau sylweddol oherwydd y cynnydd mewn costau ynni a chostau byw, a'r adferiad araf o effeithiau'r pandemig. Mae llai o incwm sbâr yn golygu bod pobl yn gorfod tynhau'u gwregysau a gwario llai ar weithgareddau hamdden. Mae costau byw uwch yn cael effaith hefyd ar recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr, wrth i bobl gael trafferth fforddio costau teithio a gofal plant, neu wrth iddynt ddewis gwaith sy'n talu'n well. Ambell waith, canlyniad yr heriau hyn gyda'i gilydd yw llai o raglenni o weithgareddau ledled Cymru. Mae cynnydd sylweddol yng nghostau'r gadwyn gyflenwi, yn enwedig mewn perthynas â deunyddiau a llafur, yn effeithio ar brosiectau cyfalaf a gwaith cynnal a chadw.

22. Ym mis Hydref 2022, nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr bod costau ynni ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus wedi cynyddu o 10-15% o'r trosiant yn 2019 i 25-30% o'r trosiant yn 2023-24. Mae'n anochel bod y sefyllfa'n debyg yng Nghymru. Mae dwy Ymddiriedolaeth Hamdden, sy'n darparu gwasanaethau ar ran awdurdodau lleol Cymru, wedi nodi cynnydd o hyd at £1m yng nghostau ynni pob contract Awdurdod Lleol maen nhw'n ei ddarparu.

23. Mae'r sector hamdden yn ei chael hi'n anodd ysgwyddo'r cynnydd yng nghostau refeniw ynni, cemegau a chyfleustodau, ynghyd â chydag effaith negyddol y cynnydd mewn costau byw ar ffrydiau refeniw. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r pyllau nofio yn heneiddio, a hwythau wedi'u hadeiladu yn y 1970au a'r 1980au. Mae eu costau rhedeg yn uwch byth o'r herwydd ac yn gynyddol anoddach i'w cynnal.

24. Mae pryder o fewn y sector chwaraeon a hamdden y gallai'r heriau hyn, law yn llaw â'r cyd-destun ariannu heriol i Lywodraeth Leol, arwain at leihau neu resymoli gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru fod gweithredwyr pyllau nofio yn gostwng tymheredd eu dŵr er mwyn arbed arian. Mae Nofio Cymru yn amcangyfrif y gallai fod 150,000 yn llai o oedolion a phlant yn gorfforol actif ar draws Cymru dros y 18 mis nesaf oherwydd yr heriau ariannol mae gweithredwyr pyllau yn eu hwynebu. Bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid, fel Nofio Cymru ac WSA, wrth iddi esblygu.

25. O dan y Ddeddf Llywodraeth Leol, nid yw gwasanaethau hamdden yn cael eu gwarchod fel gwasanaeth statudol fel y mae'r gwasanaethau llyfrgell. Ceir hefyd amrywiaeth o drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol ar draws Cymru: mae wyth Awdurdod Lleol yn darparu eu gwasanaethau eu hunain; mae dau yn eu darparu trwy gwmni masnachu sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol; mae deg yn defnyddio Model yr

Ymddiriedolaeth Elusennol; mae un yn defnyddio darparwr preifat; ac mae’r olaf wrthi’n dod â'r gwasanaethau hyn yn ôl yn fewnol.

26. Mae yna hefyd sawl cyfleuster a arferai fod o dan law Awdurdodau Lleol sydd ers 2010 wedi cael eu trosglwyddo i weithredwyr un safle. Nid yw'r rhan fwyaf o’r safleoedd unigol hyn wedi’u contractio gan yr Awdurdod Lleol i ddarparu gwasanaeth ac yn aml maent yn asedau cyfalaf sydd wedi’u trosglwyddo fel Ased Cymunedol. Mae Llandysul, Harlech a Phlas Madog Wrecsam yn enghreifftiau. Teimlir yn gyffredinol mai nhw yw’r lleoliadau sy’n wynebu’r risg fwyaf gan nad ydynt yn cael eu gwarchod gan gontractau ac am nad oes ganddynt amddiffyniad ariannol ar ffurf cefnogaeth Awdurdod Lleol na'r hawl i "roi’r allweddi yn ôl" i'r Awdurdod Lleol.

27. Yn ôl data Community Leisure UK Wales, mae gweithredwyr hamdden eisoes wedi buddsoddi mewn systemau ynni effeithlon lle gallant. Fodd bynnag, mae bron i ddwy ran o dair o'r ystâd hamdden yn heneiddio ac angen ei hadnewyddu. Gyda'r pwysau ariannol presennol, nid yw ymddiriedolaethau hamdden yn gallu buddsoddi rhagor mewn datgarboneiddio ac adnewyddu cyfleusterau.

28. Er bod canolfannau hamdden a phyllau nofio awdurdodau lleol yn wynebu heriau refeniw o hyd, mae diffyg buddsoddi cyfalaf yn fater mwy dybryd, yn enwedig yng nghyd-destun ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau economi ddi-garbon a thrawsnewidiad gwyrdd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

29. Gall Awdurdodau Lleol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill fanteisio ar gymorth technegol ac ariannol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i wneud eu pyllau nofio a'u canolfannau hamdden (gan gynnwys y rhai a reolir gan ymddiriedolaethau hamdden) yn fwy ynni effeithlon, gan helpu i leihau allyriadau carbon. Mae'r cymorth ariannol yn cynnwys benthyciadau di-log gan Raglen Gyllid Cymru. Mae'r benthyciadau di-log ar gael ar gyfer gwelliannau fel rhan o raglenni gwaith ôl-osod mawr, neu brosiectau effeithlonrwydd ynni llai. Maen nhw’n cynnwys mesurau i leihau costau gwresogi drwy wneud adeiladau'n fwy effeithlon, newid goleuadau LED, a phrosiectau ynni adnewyddadwy fel gosod paneli solar ar y to.

30. Galwodd Llywodraeth Cymru, a sefydliadau eraill yn y sector hamdden ar Lywodraeth y DU i gynnwys canolfannau hamdden a phyllau yn y cynllun rhyddhad uwch ar filiau ynni. Ym mis Mawrth cafwyd cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU am becyn cymorth penodol o £63m ar gyfer canolfannau hamdden a phyllau nofio ac mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried sut i ddefnyddio’r arian canlyniadol o tua £3.5m a fydd yn dod, gan gofio hefyd y cyllid sylweddol sydd eisoes yn cael ei ddarparu i Awdurdodau Lleol a’r arian ehangach sydd ar gael i'r sector. Rhaid nodi hefyd mai un o egwyddorion pwysicaf datganoli yw nad yw cyllid canlyniadol yn cael ei ‘glustnodi’ at ddibenion tebyg mewn llywodraethau datganoledig. Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i asesu ac ystyried pa benderfyniadau cyllido gâi’r effaith fwyaf yn unol ag amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru yng nghyd-destun yr ystod o wasgfeydd sydd wedi’u nodi, gan gynnwys y trafodaethau am gyflogau a lliniaru'r argyfwng costau byw rydym yn parhau i'w wynebu.

31. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arian, drwy Chwaraeon Cymru, i awdurdodau lleol allu cynnig nofio am ddim i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau a phobl 60+. Mae'r cynllun yn darparu sesiwn sblash am ddim bob penwythnos ym mhob pwll a dwy sesiwn ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf. Neilltuwyd £1.5m ar gyfer y Fenter Nofio am Ddim yn 2023-24.

32. Mae awdurdodau lleol yn darparu cymorth wedi'i dargedu i annog pobl ifanc a phobl 60+ o ardaloedd difreintiedig i gymryd rhan yn y cynllun Nofio am Ddim - i gael hwyl, dysgu sgil bywyd a mwynhau manteision corfforol a meddyliol ffordd o fyw egnïol.

33. Gydol 2022-23 bu amrywiaeth o gynigion i wneud nofio'n hwyl ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach, gan gynnwys gwella sgiliau staff a gwneud newidiadau bach i ardaloedd pwll. Mae rhai Awdurdodau Lleol sy'n wledig yn bennaf wedi ceisio mynd i'r afael ag amddifadedd gwledig, gan geisio deall y rhwystrau i nofio a gweithio gyda chwsmeriaid i'w goresgyn. Mae awdurdodau lleol eraill yn cydweithio â banciau bwyd, cymdeithasau tai a gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu cynlluniau talebau a darparu sesiynau nofio wedi'u targedu, a gwersi i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

34. Lansiwyd Cynllun Nofio Am Ddim y Lluoedd Arfog (AFFS) ym mis Chwefror 2016, gan gynnig nofio am ddim i feteraniaid ac aelodau'r Lluoedd Arfog. Mae'r AFFS yn dangos yr ymrwymiad di-dor i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog sy'n diwallu eu hanghenion penodol ac yn cydnabod eu gwasanaeth i'w gwlad. Cafodd y cynllun ei gyflwyno fel estyniad o becyn Cymorth i'r Lluoedd Arfog a'u Cyn Aelodau ac mae'n ategu mesurau ymarferol eraill sydd gan awdurdodau lleol i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Byddwn yn neilltuo refeniw blynyddol o £45,000 ar gyfer cynllun Nofio Am Ddim y Lluoedd Arfog dros y tair Blynedd Ariannol nesaf (2022-25).

35. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo £16m o arian cyfalaf dros y ddwy flynedd nesaf i Chwaraeon Cymru i ddatblygu cyfleusterau ledled Cymru, sy'n cynnwys helpu i wella cyfleusterau chwaraeon gyda mesurau arbed ynni. Trwy weithio gyda phartneriaid ar draws y sector, awdurdodau lleol ac addysg, rydym yn sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl mewn gyfleusterau chwaraeon a hamdden.

36. Mae gwasanaethau hamdden a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn sylfaenol ar gyfer cefnogi iechyd a lles Cymru. Maen nhw'n cefnogi'r economi yn anuniongyrchol drwy leihau costau gofal iechyd am eu bod yn cynnal poblogaeth iachach ac yn lleihau troseddu. Mae pwysigrwydd canolfannau hamdden a phyllau yn hyn o beth mewn cymunedau yn arwyddocaol ac mae sicrhau bod pobl yn cael cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon.

**Casgliad**

37. Mae llywodraeth leol yn chwarae rôl bwysig iawn o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus – fel llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden – i gymunedau ledled Cymru ac maen nhw'n allweddol i iechyd a lles ein pobl. Mae'r heriau rydym yn eu hwynebu, ac wedi'u hwynebu ers sawl blwyddyn, yn sgil y gostyngiad real yn setliad ariannol Llywodraeth y DU, yn golygu bod yn rhaid i ni gydweithio hyd yn oed yn dynnach â'n gilydd i wireddu'n huchelgais cytûn.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon